Arweinydd Tîm Trwyddedu

Pecyn Recriwtio (Swydd barhaol)





Cyngor Gwynedd

Hysbyseb Swydd

Swydd: Arweinydd Tîm Trwyddedu (Parhaol)
£45,529 - £47,665 yn ogystal â chyfraniad pensiwn Llywodraeth Leol

Diolch am ddangos diddordeb mewn gwneud cais ar gyfer y swydd allweddol yma.

Bydd y swydd yma yn cynnig cyfle gwirioneddol i wneud cyfraniad allweddol i waith pwysig y Gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu o fewn Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd. Rydym yn awyddus i benodi rhywun fydd yn arwain ar yr elfen Trwyddedu gan sicrhau gwasanaeth proffesiynol ac o safon i gymunedau Gwynedd.

Mae holl fanylion y swydd i'w gweld yn y pecyn yma gan gynnwys gwybodaeth am sut i gyflwyno cais. Ond os hoffech sgwrs anffurfiol am unrhyw ran o'r swydd, mae croeso i chi gysylltu gydag Andrew Parry, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, drwy e-bostio: **andrewlloydparry@gwynedd.llyw.cymru**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



Swydd Ddisgrifiad

PWRPAS Y SWYDD

- Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Arwain a gweithredu fel y swyddog arbenigol yn y maes Trwyddedu gyda'r swyddogaethau yn ymwneud â phenderfynu ar geisiadau, cydymffurfiaeth gyda deddfwriaethau paratoi polisïau Trwyddedu – yn y meysydd gwaith sydd yn cynnwys trwyddedu tacsis, alcohol, adloniant, gamblo, carafanau a lles anifeiliaid.
- Sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel sydd yn canolbwyntio ar anghenion y cwsmer.
- Gweithredu fel Arweinydd Tîm i staff dynodedig.

CYFRIFOLDEB AM ADNODDAU (e.e. staff, cyllid, offer)

- Staff – Arwain a goruchwylio staff dynodedig sydd gyda dyletswyddau trwyddedu.
- Cyllid – Cyllidebau sy'n ymwneud â gwaith y tîm yn y maes trwyddedu.
- Offer – Offer swyddfa personol ac offer a ddefnyddir gan swyddogion y Tîm trwyddedu.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Arwain tîm o unigolion neu mewn maes / meysydd gwaith penodol gan sicrhau darpariaeth gwasanaeth trwyddedu a gorfodaeth effeithiol o ddeddfwriaethau yn y meysydd trwyddedu; ymateb i ofynion cwsmeriaid, y cyhoedd ac aelodau, ac o fewn cyllidebau'r gwasanaeth.
- Gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y maes trwyddedu chefnogi'r Rheolwr drwy gyfrannu at baratoi cynlluniau darparu gwasanaeth blynyddol, ac arwain ar eu gweithrediad.
- Rhoi arweiniad proffesiynol, statudol a gweithredol i staff y tîm, i fusnesau, defnyddwyr, y cyhoedd ac Aelodau, ynghylch materion trwyddedu a gweithredu fel bo angen i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflawni gwaith yn effeithiol ac effeithlon.
- Darparu cyngor a chefnogaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r maes i'r Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Safonau Masnach a Thrwyddedu), Pennaeth / Pennaeth Adran Cynorthwyol, y Cyngor a'i bwyllgorau yn ôl y galw, a mynychu pwyllgorau a chyfarfodydd fel bo'r angen.

PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)

- Arwain ar yr holl waith o ddelio gyda ceisiadau am drwyddedau, ac achosion gorfodaeth yn y maes Trwyddedu a delio'n uniongyrchol gyda'r materion cymhleth a chynhennus fel yr arbenigwr yn y maes.
- Arwain ar y gwaith o baratoi a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog, Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a'r Is-bwyllgorau trwyddedu.
- Arwain a gweithredu ar gyflawni rhaglenni gwaith ac arolygon penodol, gan gynnwys sicrhau ymateb yn gyflym ac yn briodol i sefyllfaoedd argyfwng gan gynnwys materion sydd yn codi y tu allan i oriau swyddfa arferol, fel bo angen.
- Arwain ar achosion erlyniad a chynrychioli'r Cyngor mewn llysoedd barn.
- Cynrychioli holl wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ar y grŵp Cynghori Diogelwch (SAG).
- Arwain ar fentora ac hyfforddi'r Tîm Trwyddedu ac ar addysgu a chynghori defnyddwyr y gwasanaeth gan gynnwys busnesau, y cyhoedd ac aelodau.
- Cyfrifoldeb am ddatblygiad, a gwerthusiad staff y tîm trwyddedu a'u hannog i weithio i'w llawn botensial drwy osod amcanion a thargedau sy'n addas ar gyfer mesur cyflawniad o fewn y maes trwyddedu.
- Arwain a chynrychioli'r Tîm / Gwasanaeth / Cyngor ar weithgorau trawsadrannol ac ar fforymau rhanbarthol a cenedlaethol fel prif bwynt cyswllt y Cyngor gydag arbenigedd yn y maes trwyddedu.
- Arwain a chyfrannu ar faterion datblygu canllawiau ,gweithdrefnau a pholisïau eu gwasanaeth ynghyd a chyfrannu at ddatblygu a chynnal gweithdrefnau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Arwain ar gydlynu a gwneud gwaith mewn amgylcheddau, yn ddarostyngedig i asesiad risg penodol, gall beri risg i iechyd.
- Arwain ar fonitro a rheoli perfformiad y Tîm Trwyddedu, er mwyn sicrhau fod y Tîm yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyfrannu tuag at cwrdd ag amcanion y gwasanaeth yn ogystal a chyfrannu at weithredu unrhyw gynlluniau gwella gwasanaeth
- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach a Thrwyddedu).
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Safonau Masnach a Thrwyddedu) i ddatblygu trefniadau cyfathrebu a pherthynas weithio effeithiol ac adeiladol ymhlith staff y Gwasanaeth, ac i sefydlu cysylltiadau addas ac effeithiol gydag aelodau a swyddogion y Cyngor, Cynghorau Tref a Chymuned, aelodau'r cyhoedd a phartneriaid y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisi a gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.

PRIF DDYLETSWYDDAU (parhad)

- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau iechyd a diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldeb a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Gweithredu o fewn polisi a gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cyngor. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.
- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cyngor yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cyngor.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill cyfatebol a rhesymol, sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.

AMGYLCHIADAU ARBENNIG (e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig a.y.y.b.)

- Bydd angen i ddeilydd y swydd fynychu cyfarfodydd gyda'r nos o bryd i'w gilydd a gweithredu fel rhan o dîm yn ymateb i argyfyngau sifil, yn unol â chynllun argyfwng y Cyngor. Bydd hefyd gofyn i ddeilydd y swydd deithio i gyfarfodydd oddi fewn ac oddi allan i Wynedd yn achlysurol.
- Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd gymryd rhan yn y cynllun darparu gwasanaeth tu allan o oriau neu pan fo argyfwng ac achosion penodol yn codi sydd angen ymateb brys.



Manylion Person

Nodweddion Personol
Hanfodol:
Bod yn fodlon i ennill y medrau a'r cymwysterau proffesiynol pellach
Pendantrwydd
Y gallu i weithio ar ben ei hun pan fo angen
Y gallu i arwain tîm
Y gallu i weithio o dan bwysau gwaith
Agwedd bositif
Diragfarn
Pwyllog
Gallu i ymdopi gyda newid
Hyderus
Gallu gweithio at a chyrraedd targedau
Gallu ymdopi a sefyllfaoedd anodd
Agwedd hyblyg tuag at oriau gwaith, lleoliad a dyletswyddau

Cymwysterau a Hyfforddiant Perthnasol
Hanfodol:
Gradd (Anrh), neu Ddiploma cyfatebol mewn maes gwaith perthnasol i waith Trwyddedu a/neu Gwarchod y Cyhoedd.

Dymunol:
Cymhwyster Swyddogion Proffesiynol Trwyddedu yr IOL.
Cymhwyster neu hyfforddiant mewn gorfodaeth
Cymhwyster neu hyfforddiant mewn maes Amgylcheddol e.e. niwsans statudol.
Cymhwyster mewn Arwain/Rheoli pobl



Manylion Person (parhad)

Profiad Perthnasol
Hanfodol:
Profiad o weithio yn y maes gorfodaeth o fewn awdurdod lleol gan gynnwys paratoi/cyflwyno adroddiadau ar gyfer achosion llys.
Profiad o arwain a datblygu prosiectau penodol.
Profiad o gyfrannu at welliannau /newidiadau mewn trefniadau a phrosesau gwaith
Y gallu i gyrraedd targedau a delio gyda chyfyngiadau amser.
Profiad o arwain a datblygu prosiectau penodol.
Profiad o weithio gyda Awdurdodau cyfrifol megis yr Heddlu a Gwasanaeth Tân.

Dymunol:
Profiad o baratoi a chyflwyno adroddiadau ar gyfer gwrandawiadau pwyllgorau.
Trwyddedu ac o baratoi polisïau yn y maes.
Profiad o gwblhau gwaith rhagweithiol ac ymgyrchoedd perthnasol i'r maes Trwyddedu.
Profiad o arwain / rheoli unigolion neu dîm.
Dealltwriaeth o feysydd gwaith eraill Gwarchod Y Cyhoedd, a sut mae rhain yn plethu i'r gwaith yn y maes trwyddedu.

Sgiliau a Gwybodaeth
Hanfodol:
Sgiliau TG (e.e. MS Word, Excel).
Trefnus a gallu cadw cofnodion cywir wrth brosesu ceisiadau a thrwyddedau
Trwydded yrru llawn.
Sgiliau rhifyddeg a llythrennedd da.
Sgiliau cyfathrebu da, llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg ar Saesneg.
Gallu i gynhyrchu adroddiadau cryno, clir a chywir.
Gallu i ddelio yn effeithiol gyda newid a sefyllfaoedd deinamig.

Dymunol:
Gwybodaeth a dealltwriaeth arbenigol trylwyr am Ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau sydd yn berthnasol i faes gwaith trwyddedu.
Dealltwriaeth o brosesau gwaith ar draws holl feysydd trwyddedu.
Sgiliau TG arbenigol mewn perthynas â meddalwedd cofnodi a dadansoddi data gan gynnwys rhedeg adroddiadau / monitro perfformiad.

Anghenion Ieithyddol

Gwrando a Siarad - Lefel Uwch
Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Darllen a Deall - Lefel Uwch
Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

Ysgrifennu - Lefel Uwch
Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. (Mae'n bosib cael cymorth i wirio'r iaith).

Cymraeg

Proses Ymgeisio

Hysbysiad mewnol yn unig yw hwn.

Cyn cyflwyno cais, gofynnwn i chi adolygu Manylion y Person a'r Swydd Ddisgrifiad ac yna dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer ymgeisio am y swydd, ar: www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi erbyn 12pm, Dydd Iau, 26 Tachwedd 2026.

Bwriedir cynnal cyfweliadau yn fuan wedi'r dyddiad cau ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Os dymunwch sgwrs anffurfiol, mae croeso i chi gysylltu gydag Andrew Parry: andrewlloydparry@gwynedd.llyw.cymru



Cyngor Gwynedd